ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 11

## TÂL PENSIYNADWY, CYFRANIADAU PENSIWN A PHRYNU GWASANAETH YCHWANEGOL

PENNOD 1

TÂL PENSIYNADWY A CHYFRANIADAU PENSIWN

### Cyfraniadau pensiwn

**3.**—(1) Rhaid i aelod-ddiffoddwr tân dalu cyfraniadau pensiwn i'r awdurdod yn ôl cyfradd o 8.5 y cant o'i dâl pensiynadwy am y tro.

(2) Caniateir i'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan baragraff (1) gael eu didynnu gan yr awdurdod o bob rhandaliad o dâl pensiynadwy wrth iddo ddod yn ddyledus, ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddull talu arall y gall yr awdurdod a'r aelod gytuno arno.

(3) At ddibenion y rheol hon, tâl pensiynadwy aelod-ddiffoddwr tân yn ystod cyfnod o seibiant mamolaeth, seibiant tadolaeth neu seibiant mabwysiadu yw'r tâl y mae'r person yn ei gael am y cyfnod hwnnw gan gynnwys gwerth unrhyw dâl mamolaeth, tâl tadolaeth neu dâl mabwysiadu statudol o dan Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**).

(**1**) 1992 p.4.